**PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AM OES**
**7 MAWRTH 2018**

**PWNC:** **CYNLLUN BUSNES Y GWASANAETH CYFLAWNI ADDYSG (GCA) (2019-2021) ac ATODIAD YR AWDURDOD LLEOL 2019-2020 (Drafft ar gyfer ymgynghori arno)**

**ADRODDIAD GAN:** **DEBBIE HARTEVELD, RHEOLWR GYFARWYDDWR, Y GCA. I'W GYFLWYNO GAN Y PRIF GYNGHORYDD HER**

---

## 1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn gofyn i Aelodau ystyried cynnwys llawn Cynllun Busnes drafft y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) ar gyfer 2019-2020 ac Atodiad yr Awdurdod Lleol 2019-2020, fel rhan o'r broses ymgynghori ranbarthol. Bydd Aelodau'n sicrhau, drwy'r gweithgarwch hwn bod y cynllun yn galluogi i ysgolion dderbyn cymorth priodol i wella a bod pob disgybl yn cyrraedd eu potensial ar draws Caerffili. Mae'r adroddiad yn galw am sylwadau'r Aelodau cyn ei gyflwyno i'r Cabinet.

## 2. CRYNODEB

2.1 Mae'n ofynnol i'r GCA gyflwyno Cynllun Busnes rhanbarthol trosfwaol gydag atodiadau ategol ar gyfer pob un o'r pum Awdurdod Lleol (ALl). Mae'r adroddiad hwn yn gofyn i aelodau ystyried cynnwys llawn Cynllun Busnes drafft y GCA ac Atodiad ALl Caerffili fel rhan o'r broses ymgynghori ranbarthol. Bydd Aelodau'n sicrhau, drwy'r gweithgarwch hwn bod y cynllun yn galluogi i ysgolion dderbyn cymorth priodol i wella a bod pob disgybl yn cyrraedd eu potensial ar draws Caerffili.

## 3. CYSYLLTIADAU I'R STRATEGAETH

3.1 Mae'r cam gweithredu a argymhellir yn cyfrannu at y Nodau Llesiant canlynol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2016:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

## 4. YR ADRODDIAD

4.1 Mae'n ofynnol i'r GCA gyflwyno Cynllun Busnes rhanbarthol trosfwaol gydag atodiadau ategol ar gyfer pob un o'r pum Awdurdod Lleol (ALl). Mae'r Cynllun Busnes hwn (2019-2020) yn rhoi amlinelliad o'r rhaglen waith sydd ei hangen er mwyn parhau

i gyflymu canlyniadau a darpariaeth i blant a phobl ifanc mewn lleoliadau ac ysgolion yn Ne-ddwyrain Cymru.  Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar yr angen i gynyddu uchelgais a chyflymu gwelliannau i ganlyniadau disgyblion, gwella ansawdd yr addysgu a'r arweinyddiaeth, cefnogi ysgolion i wireddu'r agenda cenedlaethol i ddiwygio a pharhau i ddatblygu'r system o hunan-wella yn yr ysgolion a'r lleoliadau eu hunain.

4.2 Mae'r blaenoriaethau ar gyfer y Cynllun Busnes yn deillio o Gynlluniau Strategol Awdurdodau Lleol, y cynnydd a wnaed tuag at y Cynllun Busnes blaenorol, meysydd a nodwyd fel rhai sydd angen gwelliannau drwy brosesau hunanwerthuso mewnol, ymchwil allanol ac adborth gan Estyn.  Mae'r model cyflawni ar gyfer y Cynllun Busnes ar sail ranbarthol, mae anghenion pob ysgol a thueddiadau ym mhob ALl yn cael eu cyflawni drwy waith pwrpasol ym mhob ysgol.  Mae'r Cynllun Busnes hwn yn mynd i'r afael â blaenoriaethau strategol awdurdod lleol Caerffili sydd wedi'u cwmpasu yng nghylch gwaith y GCA.

4.3 Mae'r model cyflawni ar gyfer y Cynllun Busnes ar sail ranbarthol, mae anghenion pob ysgol a thueddiadau yng Nghaerffili drwy waith pwrpasol gyda phob ysgol.  Mae'r GCA yn cynnig amrediad eang o gefnogaeth bwrpasol sy'n seiliedig ar arfer gorau.

4.4 Mae blaenoriaethau Cynllun Busnes y GCA yn parhau i gael eu llunio gan ddefnyddio canlyniadau adolygiadau ac ymchwil allanol.

- Y Rhaglen Dysgu Proffesiynol: Adroddiad ymchwil (Yr Athro David Egan: Prifysgol Metropolitan Caerdydd)
- Ymchwil i grwpiau rhwydwaith mewn ysgolion cynradd ac uwchradd a'u heffaith ar arweinyddiaeth (ARAD)
- Mapio effaith ymyriadau addysgol (Prifysgol Stirling)
- Datblygu dulliau ar sail clwstwr i wella ysgolion. (Yr Athro Moira Hulme: Prifysgol Metropolitan Manceinion)
- Cyflawni gwasanaethau datblygu drwy Rwydweithiau Ysgolion sy'n Dysgu. (Yr Athro Brett Pugh: Prifysgol De Cymru)
- Cyflawni cefnogaeth bwrpasol ar gyfer newidiadau i fanyleb y cwricwlwm TGAU.  (Yr Athro David Egan: Prifysgol Metropolitan Caerdydd)
- Adroddiad Gwerth am Arian 2017-18 (Road Allcot)
- Sylwadau ar agweddau o waith y GCA gydag argymhellion i'w hystyried.  (Yr Athro Mick Waters)

4.5 Noder bod y gwerthusiad canol blwyddyn o'r cynllun busnes cyfredol wedi'i gyflwyno i bob un o grwpiau llywodraethu'r GCA ac maent ar gael i'r awdurdodau lleol eu rhannu fel y bo'n briodol yn eu prosesau democrataidd eu hunain.  Cyflwynwyd data perfformiad ysgolion ac agregedig yr ALl i'r pwyllgor hwn mewn adroddiadau blaenorol ac mae'r cynllun busnes hwn wedi'i hysbysu gan ddadansoddiad o'r data hwnnw.

4.6 Mae'r Cynllun Busnes yn rhan o'r broses ymgynghori. Nodir yr Ymgyngoreion isod:

- Staff y Gwasanaeth Cyflawni Addysg
- Cyfarwyddwyr SEWC a'r Gyfarwyddiaeth Esgobaeth
- Y Grŵp Gweithredol Rhanbarthol ar y Cyd
- Bwrdd Cwmni'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg
- Pwyllgor archwilio a Sicrhau Ansawdd y Gwasanaeth Cyflawni Addysg
- Pwyllgorau Craffu ar Addysg Awdurdodau Lleol Unigol
- Grŵp Strategaeth Penaethiaid Rhanbarthol
- Grŵp Strategol Llywodraethwyr Rhanbarthol
- Ymgynghoriad â Disgyblion

4.7 Gofynnwyd am gyngor ac arweiniad hefyd gan y bobl ganlynol:

- Syr Alasdair MacDonald (Cynghorydd i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ar gyfer dysgwyr agored i niwed)

4.8 Bydd fersiwn terfynol y Cynllun Busnes yn cael ei ategu gan amrediad o ddogfennau ategol:

- Dogfennau Atodiad Awdurdodau Lleol 2019 – 2020
- Cynllun Busnes Manwl 2019–2020
- Trosolwg Mapio Grantiau Rhanbarthol 2019–2020
- Adroddiad Hunan-werthusiad Rhanbarthol (Crynodeb Gweithredol)
- Cofrestr Risg y GCA (Crynodeb Gweithredol)
- Cynnig Dysgu Proffesiynol Rhanbarthol 2019–2020
- Cynlluniau Addysg Strategol Awdurdodau Lleol

4.9 Ffocws rhanbarthol y gwelliannau (sef y meysydd ffocws ar gyfer pob ysgol yng Nghaerffili hefyd) ar gyfer 2019-2020, fydd sicrhau gwelliannau pellach yn y meysydd canlynol:

- Darparu mynediad i ysgolion a lleoliadau i amrediad eang o ddysgu a chyngor ac arweiniad proffesiynol i gefnogi: gwireddu'r cwricwlwm a'r agenda ddiwygio ehangach, gweithredu'r Safonau Proffesiynol i Arweinwyr ac Athrawon a gweithredu'r fframwaith hunanwerthuso cenedlaethol yn llwyddiannus.
- Hwyluso a sicrhau ansawdd cyfleoedd dysgu proffesiynol effeithiol er mwyn gallu rhannu arfer gorau yn y rhanbarth a thu hwnt, sicrhau bod gan bob ysgol a lleoliad fynediad at ymchwil ar sail tystiolaeth er mwyn gwella eu harfer yn barhaus ac anelu at ragoriaeth.
- Parhau i gynyddu uchelgais, gwella canlyniadau i ddisgyblion (yn arbennig ar gyfer grwpiau o ddysgwyr agored i niwed: prydau ysgol am ddim, rhywedd, Saesneg fel Iaith Ychwanegol, dysgwyr mwy abl a Phlant sy'n derbyn gofal) a lleihau amrywiant o fewn ac ar draws ysgolion, lleoliadau ac ALl.
- Cyflymu gwelliannau mewn ysgolion a lleoliadau pan fydd gwelliannau'n rhy araf, drwy sicrhau ymyrraeth a chefnogaeth gynnar a chefnogi'r defnydd o bwerau statudol awdurdodau lleol er mwyn cynyddu cynnydd.
- Darparu amrediad o gefnogaeth dysgu proffesiynol a phwrpasol i leihau amrywiant o fewn ac ar draws ysgolion a nodwyd a gwella ansawdd arweinyddiaeth, yr addysgu a'r dysgu, yn arbennig yn y cyfnod uwchradd ym mhob adran.
- Cynorthwyo ysgolion i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd mewn llythrennedd, rhifedd a sgiliau digidol ym mhob cyfnod.
- Ymgorffori a mireinio'r Strategaeth Cydraddoldeb a Llesiant rhanbarthol er mwyn gwella gwaith aml-asiantaeth rhanbarthol, i leihau dyblygiad a symleiddio'r cynnig cymorth i ysgolion a lleoliadau i ddysgwyr o dan anfantais.
- Datblygu'r strategaeth ranbarthol ymhellach er mwyn datblygu system hunan-wella drwy'r clwstwr, rhwydweithiau, ysgolion rhwydwaith dysgu a modelau gwaith cyfoedion.

- Gweithio gyda phartneriaid haen ganol eraill i gyflwyno'r trefniadau newydd ar gyfer atebolrwydd a sicrhau dull gweithredu fwy syml i'r agenda ddiwygio.

**Yr Uchelgais Rhanbarthol, erbyn 2021 yw:**

4.10 Trwy weithio gyda'n partneriaid allweddol byddwn yn ceisio trawsnewid canlyniadau addysgol a chyfleoedd bywyd i bob dysgwr yn Ne-ddwyrain Cymru. Gwnawn hynny drwy:

- Sicrhau profiadau dysgu llwyddiannus a lefelau uchel o lesiant, yn arbennig ar gyfer y rhai sy'n wynebu'r heriau mwyaf;
- Creu rhwydweithiau effeithiol o weithwyr proffesiynol, ar draws y pum Awdurdod Lleol a thu hwnt a chydweithio i wella arweinyddiaeth, yr addysgu a'r dysgu;
- Denu a chadw tîm o bobl ragorol sy'n ymgorffori ein gwerthoedd craidd yn eu gwaith ac sy'n rhannu angerdd am ragoriaeth.

4.11 Mae'r Cynllun Busnes hwn yn mynd i'r afael â phob un o flaenoriaethau strategol yr awdurdodau lleol, a nodir gyda *. Mae'r blaenoriaethau hyn yn rhan o gylch gwaith y GCA. Yn ogystal, bydd y GCA yn gweithio mewn partneriaeth ag ALl Caerffili i gefnogi blaenoriaethau ychwanegol yr awdurdod lleol, fel y bo'n briodol.

4.12 Bydd y GCA yn cynorthwyo'r ALl gyda'u cyfrifoldeb statudol o sicrhau bod eu swyddogaethau addysg a hyfforddiant yn cael eu harfer gyda'r bwriad o hybu safonau uchel a hybu cyflawniad potensial dysgu.

4.13 Mae'r gwelliannau sydd eu hangen ar lefel ranbarthol ac awdurdod lleol yn galw am ymrwymiad cadarn o weithio mewn partneriaeth er mwyn llwyddo. Pan fydd awdurdodau lleol a'r GCA yn gweithio mewn partneriaeth agos, mae tystiolaeth yn dangos, yn arbennig o ran ysgolion sy'n achosi pryder, y gellir cyflawni gwelliannau cyflym a chynaliadwy i ysgolion.

4.14 Blaenoriaethau Strategol Caerffili (a ddarparwyd gan yr ALl):

| Blaenoriaethau strategol ar gyfer 2019/2020 | Prif gyswllt/gysylltiadau i'r elfennau gwella yn y Cynllun Busnes |
|---|---|
| Gwella perfformiad cyfnod allweddol 4.* | Elfen Wella: 1, 2 a 3 |
| Gwella perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.* | Elfen Wella: 1, 2 a 3 |
| Gwella ansawdd arweinyddiaeth yn y cyfnod uwchradd er mwyn gwella'r gyfradd gynnydd.* | Elfen Wella: 1 a 2 |
| Lleihau nifer y dyddiau a gollir oherwydd gwaharddiadau | Elfen Wella: 1, 2 a 3 |
| Gwella lefelau presenoldeb. | Elfen Wella: 1, 2 a 3 |

Mae gan bob elfen wella yn y cynllun hwn bwyslais penodol yn awr ar waith y GCA yn hyrwyddo canlyniadau gwell i ddysgwyr agored i niwed, yn arbennig y rhai sy'n derbyn prydau ysgol am ddim. Mae'r strategaethau hyn yn seiliedig ar amrediad eang o dystiolaeth ymchwil. Bydd yn bwysig sicrhau bod gan bob rhanddeiliad arall, gan gynnwys ALl Caerffili ac ysgolion, eu strategaethau penodol eu hunain i gefnogi dysgwyr agored i niwed.

**Dogfennau Atodiad ALl**

4.15 Mae pob Atodiad ALl yn cynnwys trosolwg o berfformiad a'r prif feysydd i'w datblygu ar lefel ALl. Crynodeb o'r ysgolion sydd angen y lefelau uchel o gefnogaeth, canlyniadau arolygiadau a throsolwg o gategoreiddio ar gyfer yr ALl. Mae gwybodaeth am gynnydd disgyblion yn cael ei chynnwys am y tro cyntaf.

**Ym mha ffordd mae'r GCA yn cefnogi ysgolion ac yn mynd i'r afael â'u blaenoriaethau gwella ysgol?**

4.16 Drwy gyllid rhanbarthol, mae'r GCA wedi buddsoddi yn y gwaith i gynyddu capasiti ysgolion a lleoliadau addysg yn y rhanbarth yn y bum mlynedd ddiwethaf er mwyn galluogi mwy o weithio cydweithredol. Mae'r dull hwn yn galluogi athrawon ac arweinwyr i ddysgu gan ei gilydd, rhoi cynnig ar ddulliau gweithredu newydd ac ymgysylltu ag ymchwil addysgol fel cefndir ar gyfer llwyddo. Ar draws y rhanbarth mae'r GCA yn cefnogi ac yn herio gwelliannau mewn ysgolion mewn nifer o wahanol ffyrdd. Mae effaith ac effeithiolrwydd y strategaethau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd drwy brosesau mewnol ac allanol. Ceir crynodeb o'r strategaethau cefnogol hyn isod:

- Rôl Cynghorydd Her yn cefnogi, broceru a herio cyflymder cynnydd ysgolion wrth fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer eu hysgol;
- Rôl Swyddogion y GCA (gan gynnwys cefnogaeth pynciau penodol, cefnogaeth i lywodraethwyr, Llesiant a Chydraddoldeb) yn cefnogi, broceru a herio cyflymder y cynnydd mae ysgolion yn ei wneud yn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer eu hysgol;
- Mynediad at rwydweithiau ysgol wedi'u harwain (Ysgolion Rhwydwaith Dysgu) sy'n cefnogi pob agwedd ar ddatblygiad proffesiynol a gwella ysgolion sy'n canolbwyntio ar wella ansawdd yr arweinyddiaeth a'r addysgu a'r dysgu;
- Mynediad at amrediad eang o ddysgu proffesiynol, rhai gydag opsiynau achredu, ar gyfer cynorthwywyr addysgu, athrawon, arweinwyr a llywodraethwyr ysgolion;
- Gweithio gyda chyfoedion ac adolygiadau cyfoedion;
- Y defnydd o hyfforddwyr a mentoriaid hyfforddedig ac achrededig ar gyfer athrawon ac arweinwyr, o'r ysgolion eu hunain a thu hwnt;
- Mynediad at ddeunyddiau e-Ddysgu ac adnoddau o safon uchel.

**Risgiau**

4.17 Nodwyd nifer o risgiau fel rhwystrau posibl at weithredu blaenoriaethau'r Cynllun Busnes yn llwyddiannus, a nodir y rhain isod:

- Mae diffyg eglurder ynglŷn â phriod rolau a chyfrifoldebau statudol sy'n arwain at gamargraffiadau am rôl y GCA.
- Nid yw camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn cael eu cyflawni mewn ffordd amserol gan y GCA a / neu'r ALl e.e. camau gweithredu'r Gofrestr Ysgolion sy'n Peri Pryder;
- Nid yw staff y GCA a'r ALl yn cyflwyno ymagwedd unedig wrth ddelio ag ysgolion, yn arbennig y rhai sy'n peri pryder.
- Ni ddelir ysgolion i gyfrif mewn ffordd amserol gan ddefnyddio'r prosesau presennol.
- Nid oes defnydd cyson o'r protocolau rhanbarthol y cytunwyd arnynt e.e. cyflawni terfynau amser ar gyfer pennu targedau, Aelodau etholedig yn mynychu EIB.
- Ni roddir ystyriaeth amserol i'r defnydd o Bwerau Statudol ALl e.e. safonau isel, presenoldeb, gwaharddiadau, arweinyddiaeth.
- Ni wneir defnydd llawn o gynigion hyfforddiant i sicrhau bod pob Aelod Etholedig yn ymwybodol o'r negeseuon allweddol cyfredol.
- Ni wneir defnydd llawn o ddigwyddiadau ymgynghori er mwyn helpu i lunio cyfeiriad y GCA.

## 5. LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

5.1 Mae cynnwys yr adroddiad hwn (Cyrhaeddiad addysgol) yn cyfrannu at y Nodau Llesiant. Mae'r adroddiad hwn at ddiben ymgynghori yn unig ac nid yw'n dadansoddi'r 5 ffordd o weithio yn nhermau gwneud penderfyniadau ond mae'n cydnabod bod angen cynnig cymorth er mwyn gwella cyrhaeddiad wrth symud ymlaen i'r dyfodol. Mae'n rhaid i hyn fabwysiadu safbwynt hirdymor fel rhan o'i effaith ar ragolygon bywyd, cyflogaeth ac ansawdd bywyd. Mae achosion cyrhaeddiad yn gymhleth, er mai un o'r prif rai yw amddifadedd. Y mesur a ddefnyddir yn gyffredin i fesur amddifadedd yw cymhwysedd disgybl i dderbyn Prydau Ysgol am Ddim. Un o Amcanion Llesiant y Cyngor yw 'Gwella canlyniadau i bob dysgwr' ond rydym eisiau canolbwyntio'n benodol ar y rhai sy'n agored i dangyflawni.

## 6. GOBLYGIADAU CYDRADDOLDEB

6.1 Mae gan y GCA eu cynlluniau ei hunain ar gyfer Cydraddoldeb a'r Gymraeg. Felly, nid yw CBSC wedi cynnal unrhyw asesiad o effaith penodol ar Gynllun Busnes y GCA.

## 7. GOBLYGIADAU ARIANNOL

7.1 Mae gan y GCA fodel llywodraethu cadarn sydd wedi'i ategu gan y cytundeb Cydweithredu ac Aelodau (CAMA). Mae'r GCA yn cael ei ariannu ar sail flynyddol o dair ffynhonnell, a ddangosir isod. Bydd cynllun gwariant manwl yn ategu'r Cynllun Busnes terfynol sydd â chyswllt hollbwysig â'r holl gamau gweithredu ynddo. Rhennir trosolwg manwl o'r dosbarthiad rhanbarthol o grantiau ar sail dymhorol.

7.2 Sefydlwyd y GCA yn wreiddiol i fod yn ddibynnol ar dair ffrwd gyllid er mwyn bod yn ariannol hyfyw: cyllid craidd gan gynghorau, cyllid grant (mae hyn yn cynnwys cyfraniad gan y Grant Gwella Addysg (EIG) rhanbarthol a Grantiau eraill Llywodraeth Cymru ac incwm a gynhyrchir gan wasanaethau masnachu i ysgolion sydd, o ganlyniad i'r syniad o system gwella ysgolion, wedi'i ddiddymu'n llwyddiannus fel llif incwm.

7.3 Mae'r GCA yn parhau i gael ei lesteirio gan ddyfarniadau grant tymor byr gan Lywodraeth Cymru ond drwy weithio gyda chi byddwn yn parhau i wneud y defnydd gorau o'r cyllid hwn mewn amgylchedd nad yw'n ddelfrydol. Rydym yn parhau i reoli newidiadau staff ac mae tua 44% yn llai o staff ar y gyflogres yn awr na phan ddechreuom ni yn 2012. Er bod hyn wedi'i reoli'n effeithiol hyd yma mae'n parhau i fod yn ffactor sy'n cyfrannu cyfraniadau arian parod uwch i'r gronfa bensiwn er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau pensiynau (mae angen tua £170,000 ym mhob un ym mhob un o'r ddwy flynedd ariannol nesaf).

7.4 Yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, mae'r GCA wedi gallu cyfrannu'n effeithiol i arbedion effeithlonrwydd Cynghorau drwy leihau'r ymrwymiad cyllid craidd o 8%. Yn dilyn cyfarfod diweddar o Fwrdd Cwmni'r GCA trafodwyd y proffil cyllido ar gyfer 2019-20. O ystyried yr holl ffactorau hyn, cytunodd Bwrdd y Cwmni y gallai gynnig arbediad effeithlonrwydd o 2% i gyfraniad cyllid craidd y llynedd ar gyfer 2019/20 fel y nodwyd yn ein ffigur dangosol y llynedd. Cyfraniad Caerffili yn 2019/20 yw: £1,021.020.

7.5 Mae'r arbedion effeithlonrwydd hyn wedi'u hystyried yn ofalus ar gyfer hinsawdd ariannol a fydd yn heriol i'r GCA. Mae'r cynnig effeithlonrwydd hwn wedi'i greu gydag ewyllys da ac mae'n seiliedig ar y wybodaeth ddangosol hyd yma. Bydd angen i'r GCA weithredu rhaglen rheoli newid er mwyn gallu pennu cyllideb gytbwys ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod.

7.6 Mae’n bwysig nodi, er mwyn i’r GCA barhau i ddarparu gwasanaeth rhanbarthol mae angen sicrhau gostyngiad canran rhanbarthol cyson, fel yn y blynyddoedd blaenorol. Y dewis arall i hyn fyddai dull gweithredu dwy haen anymarferol ar gyfer cyflawni blaenoriaethau’r Cynllun Busnes ar draws y rhanbarthol ac i ysgolion yn yr Awdurdodau Lleol unigol.

## 8. GOBLYGIADAU PERSONÉL

8.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél.

## 9. YMGYNGHORIADAU

- Staff y Gwasanaeth Cyflawni Addysg
- Cyfarwyddwyr SEWC a’r Gyfarwyddiaeth Esgobaethol
- Grŵp Gweithredol Rhanbarthol ar y Cyd
- Bwrdd Cwmni’r Gwasanaeth Cyflawni Addysg
- Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Ansawdd y Gwasanaeth Cyflawni Addysg
- Pwyllgorau Craffu ar Addysg Awdurdodau Lleol Unigol
- Grŵp Strategaeth Penaethiaid Rhanbarthol
- Grŵp Strategol Llywodraethwyr Rhanbarthol
- Ymgynghoriad â Disgyblion

## 10. ARGYMHELLION

10.1 Gofynnwyd i’r aelodau fanteisio ar y cyfle i roi sylw ar gynnwys y Cynllun Busnes fel rhan o’r broses ymgynghori a darparu ymateb ysgrifenedig fel y bo’n briodol.

10.2 Gofynnir i’r aelodau ystyried y prif gryfderau a’r prif feysydd i’w datblygu yng Nghaerffili, fel y nodir yn Atodiad yr ALl ac ystyried sut y gellir alinio gwasanaethau’r ALl i gyflawni’r targedau uchelgeisiol yn y Cynllun Busnes, a sicrhau trwy hynny, bod pob disgybl yn cyflawni eu potensial llawn.

## 11. Y RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION

11.1 Mae’n ofynnol i’r GCA gyflwyno eu Cynllun Busnes i Lywodraeth Cymru ac mae’r Cabinet wedi’i amserlennu i’w gymeradwyo.

## 12. PŴER STATUDOL

12.1 Deddf Llywodraeth Leol 1972 a 2000
Deddf Plant 2004
Deddf Safonau a Fframweithiau 1998

Awdur: Debbie Harteveld, Rheolwr Gyfarwyddwr, Y Gwasanaeth Cyflawni Addysg

Ymgyngoreion:
Christina Harrhy, Prif Weithredwr Dros Dro
Richard Edmunds, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Addysg a Chorfforaethol
Keri Cole, Prif Swyddog Addysg
Cynghorydd Philippa Marsden, Aelod Cabinet, Addysg a Chyrhaeddiad
Cynghorydd Derek Havard, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Addysg
Cynghorydd Carol Andrews, Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Addysg
Nicole Scammell, Pennaeth Cyllid Corfforaethol a Swyddog Adran 151
Lynne Donovan, Pennaeth Gwasanaethau Pobl
Anwen Cullinane, Uwch Swyddog Polisi (Cydraddoldeb a'r Gymraeg)
Rob Tranter, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro
Ros Roberts, Rheolwr Perfformiad
Steve Harris, Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Gwella Busnes /Dirprwy Adran 151
Jane Southcombe, Rheolwr Cyllid Addysg
Staff y Gwasanaeth Cyflawni Addysg
Cyfarwyddwyr SEWC a'r Gyfarwyddiaeth Esgobaethol
Grŵp Gweithredol Rhanbarthol ar y Cyd
Bwrdd Cwmni'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg
Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg y Gwasanaeth Cyflawni Addysg
Pwyllgorau Craffu ar Addysg Awdurdodau Lleol Unigol
Grŵp Strategaeth Penaethiaid Rhanbarthol
Ymgynghoriad â Disgyblion